

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Aled Roberts (Henllan) y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Dilys ei wraig, eu plant – Hafwen, Gareth, a Dylan; ei frawd Ivor, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.
- Mae Rhiannon Davies (Tanyfron) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd ac anfonwn ein cofion ati gan hyderu y bydd yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn ac y bydd yn gwella yn fuan. Da clywed bod gweddill y cleifion wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn – Gwynant Jones ac Elwyn Bailey (Llansannan); Morfudd Williams (Henllan); Morfudd Roberts (Llanefydd); a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog). Yr ydym yn parhau i'w cofio yn ein gweddïau, gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W. J. Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mr R. J. Davies (Amber House). Cyflwynwn hwythau i ofal yr Arglwydd gan ddiolch am y gofal y maent yn ei dderbyn.

I ddod

- **GŴYL DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL HENLLAN** ar Hydref 14eg – gwasanaeth yng ngofal Rhodri Glyn a phlant Ysgol Henllan am 2.00 a bydd y Parch. Nan Powell Davies yn pregethu am 7.00.
- **SGWRS A PHANED HEFO ANEURIN** yn Nghanolfan Gymunedol Tan y Fron, nos Fercher, Hydref 16eg am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- **FFAIR HYDREF CAPEL PENIEL** yn Eirianfa, Dinbych, bore Sadwrn, Hydref 19fed, o 10.00 ymlaen.
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** yng nghwmni John Derek Rees yn Llansannan nos Sul, Hydref 20fed.
- **CYFARFOD CENHADOL CHWIORYDD BRO ALED** nos Fawrth, Hydref 22ain pryd y bydd Dr Mair Edwards, Henllan gynt, yn sôn am ei gwaith fel Seicolegydd.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD Y FRO** – y cyfarfod nesaf yn Llanefydd nos Iau, Hydref 24ain am 7.30.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL Y GROES** nos Wener, Hydref 25ain am 7.00 pryd y bydd y Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu.
- **CWRS IEUENCTID AR DAITH** dydd Sadwrn, Hydref 26ain rhwng 12.00 a 5.00 yng Nghanolfan Bro Aled, Llansannan. Bydd cinio wedi ei baratoi i chi a bydd llwyth o weithgareddau amrywiol – y cyfan am £5. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Steff neu Gwenno ar www.facebook.com/cwrs.ieuenctid neu ffoniwch Coleg y Bala (01678 520565).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Hydref 2013

Darlleniad y Dydd

2 Brenhinoedd 2:11-15

(BCND tud.339 / BCN: tud.310)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch ac ar Sul arall gweddiwn gyda'n gilydd ar i Dduw weithio ynom trwy ei Ysbryd, ac i ni drysori Iesu'n fwy fyth wrth ei addoli a gwrando ar ei Air, lle bynnag y byddwn.

O edrych ar y newyddion yr wythnos diwethaf, mae'n edrych fel bod pethau braidd yn flêr yn America. Oherwydd anghytuno gwleidyddol yn y Gyngres, mae'r llywodraeth wedi cau lawr (shutdown) a gweithwyr y llywodraeth (parciau cenedlaethol, amgueddfeydd, swyddfeydd ayyb) ddim yn gallu mynd i'w gwaith! Sut mae pobl America am ymateb? Panic fyddai'r ymateb disgwylidig, tan i rywun sylweddoli bod hyn yn ddigwyddiad cymharol gyffredin yn America. Cafodd y llywodraeth ei chau i lawr 18 o weithiau ers 1976!

Mae'n gallu bod yn debyg iawn yn ein bywyd ni, sefyllfaoedd yn gallu ymddangos fel petaent yn drech na ni hyd nes i ni sylweddoli bod cynhaliaeth i'w chael. Meddyliwn am blant yn bryderus wrth gychwyn ysgol uwchradd am y tro cyntaf, neu ieuencid yn gadael cartref i fynd i goleg, gwaith, neu brifysgol.

Profiad cyffelyb i hynny y mae Eliseus yn ei wynebu yn ein darlleniad heddiw. Mae'n gweld y proffwyd Elias – ei esiampl a'i athro y bu Duw'n gwneud cymaint o wyrthiau trwyddo – yn cael ei gipio oddi wrtho i'r nefoedd. Er y galar a'r ofn, mae Eliseus yn gyflym iawn yn dod i sylweddoli fod Duw yn parhau i lywodraethu, ac am ei ddefnyddio ef, fel y defnyddiodd Elias o'i flaen.

Wrth i ni ymgodymu â'r sefyllfaoedd sy'n dod i'n rhan ni, hawdd yw cael ein llethu ganddynt ac anobeithio. Ond cofiwn mai'r un Duw grymus a graslon sydd ar waith heddiw ac a welwyd trwy'r Beibl. A thrwy aberth ac atgyfodiad Crist, mae disgyblion Iesu trwy ffydd yn derbyn cariad, gobaith tragwyddol a nerth yr Ysbryd Glân i'w cynnal trwy bob sefyllfa. Wrth gyflwyno ein hunain i'r Arglwydd heddiw felly, a dibynnu ar ei allu a'i drugaredd Ef, cofiwn eiriau'r Apostol Paul: 'Ym mhob rhyw amgylchiadau, yr wyf wedi dysgu'r gyfrinach sut i ddygymod, boed â llawnder neu newyn, â helaethrwydd neu brinder. Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.' (Philipiadaid 4:12-13)

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • **Adnabod – Grŵp Celfyn** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Gwener • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin a Rhodri yn arwain adolygiad o'r gyfres a gafwyd ar Galatiaid.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher Gwasanaeth Diolchgarwch yn Llanfair am 7.00 pryd y bydd y Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00.
- Gwener Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Peniel am 7.00 gyda'r Parch. Huw Dylan Jones, Llangwm yn pregethu.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00. Bydd cyfle hefyd i ddod â nwyddau ar gyfer y Banc Bwyd. Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith yn Nhanyfron am 2.00. Hefyd, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i'r oedfa i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd ar gyfer Capel Tanyfron.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul y plant yn cyfarfod heddiw.
- Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi yn Henllan am 10.00 a bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn y Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Iau Cymdeithas Llanefydd yn y capel am 7.00 yng nghwmni'r ddwy Sian, sef Sian Bryn Hen gynt a Sian Bryniau Defaid.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.